Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Comisiynydd Heddlu a**

**Throseddu Dyfed Powys**

## Praesept a Chyllideb Ddrafft 2016/17

**Ionawr 2016**

## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol .......... 2
1. Cyflwyniad .......... 4
2. Cyllid - Setliad Dros Dro 2016/17 .......... 5
3. Praesept y Dreth Gyngor ar gyfer 2016/17 .......... 6
4. Cyllideb Ddrafft 2016/17 .......... 9
6. Cyfalaf .......... 14
Atodiad A - Adroddiad y Prif Swyddog Cyllid .......... 15
Atodiad B - Cynllun Tymor Canolig .......... 27

## Crynodeb Gweithredol

Wrth ystyried lefel y praesept, rwyf wedi cynnal fy ymgynghoriad statudol, wedi ystyried perfformiad yr heddlu ac wedi adolygu lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn.

Mae'r setliad drafft gwerth £50.012 miliwn a gyhoeddwyd ar 17 Rhagfyr 2015 wedi arwain at ostyngiad o 0.6% yng nghyllid craidd y llywodraeth yn nhermau arian parod. Mae hyn yn cyfateb i £287,000 yn llai ar gyfer Dyfed Powys yn 2016/17 o'i gymharu â 2015/16.

Ar hyn o bryd, cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir ei defnyddio yw £45.5 miliwn[1], wedi'u rhannu rhwng cronfeydd refeniw a glustnodwyd, cronfeydd cyfalaf a chronfa gyffredinol. Gwariwyd llai na'r hyn a gyllidebwyd gennym yn 2013/14 ac yn 2014/15. Arweiniodd hyn at danwariant yn y blynyddoedd hynny. Yn 2015/16 rydym yn disgwyl gwario swm a fydd yn cyfateb yn agos i'r gyllideb. Felly nid wyf yn credu bod angen codi lefel bresennol praesept y dreth gyngor. Rwy'n bwriadu rhewi praesept y dreth gyngor ar yr un lefel ag ar gyfer 2015/16. Mae hyn yn unol â'r rhagolwg a gynhwysir yn adroddiad praesept 2015/16.

Rwyf felly'n cyflwyno praesept o £43.330 miliwn i Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys er mwyn iddo graffu arno. Bydd cyfanswm y cyllid canolog a lleol, felly, yn £93.342 miliwn. Ni fydd newid ym mhraesept y dreth gyngor ar gyfer eiddo cyfartalog band D, gyda'r swm sy'n daladwy yn aros ar £200.07 fel yr oedd yn 2015/16.

Rwy'n debygol o gael hysbysiad o'r setliad terfynol ar gyfer 2016/17 ym mis Chwefror 2016. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Panel am unrhyw newidiadau i'r setliad dros dro ar ôl i mi eu derbyn.

[1] Fel ar 31 Mawrth 2015

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r trefniadau statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn gosod amserlen dynn, sef 1 Chwefror 2016 i mi gyflwyno fy nghynnig praesept cychwynnol ar gyfer 2016/17 i Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn dilyn cyhoeddi'r setliad dros dro ar 17 Rhagfyr 2015. Cynhaliwyd Seminar ar 9 Rhagfyr 2015 lle y trafodwyd fy nghynlluniau ar gyfer praesept 2016/17.

1.2 Er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh), rwyf wedi ymgynghori â'r Prif Gwnstabl (PG) ac wedi penderfynu ar safbwynt cychwynnol ar y gyllideb ar gyfer 2016/17. Mae hyn wedi llywio fy mhenderfyniad ar braesept yr heddlu. Mae setliad y gyllideb ar gyfer yr heddlu yn cynnwys cynllun lleihau costau. Bydd y cynllun hwn, a gynhyrchwyd gan y PG, yn parhau â'r gwaith ar draws ardal Dyfed Powys i sicrhau heddlu costeffeithiol ac effeithlon yn ogystal ag ymateb i'r heriau ariannol.

1.3 Rwyf wedi ceisio gweithredu'n ddarbodus ac adlewyrchu'r ansicrwydd sylweddol sy'n parhau mewn cysylltiad â setliadau ariannol yn y dyfodol ar gyfer plismona ardal Dyfed Powys, yn ogystal â phennu targed lleihau costau heriol i'r Prif Gwnstabl ei gyflawni.

1.4 Yn sgil Adolygiad o Wariant 2015 cafwyd newyddion calonogol y byddai cyllid cyffredinol yr heddlu ond yn wynebu toriad o 1.3% mewn termau real dros bedair blynedd. Fodd bynnag, disgwylir i fformiwla gyllido newydd gael ei chyflwyno o 2017/18 ymlaen ac mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch yr effaith debygol ar ardal Dyfed-Powys yn sgil ailddosbarthu arian plismona rhwng heddluoedd

1.5 Felly, rwy'n ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng fy ymrwymiad i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen drwy flaenoriaethu swyddogion rheng flaen a'm hymrwymiad i wario arian trethdalwyr yn ddoeth.

1.6 Nod yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar Aelodau o Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i graffu ar fy mhenderfyniad praesept cychwynnol a'r sefyllfa gynhenid o ran y gyllideb ar gyfer 2016/17, sefyllfa yr wyf eisoes wedi ymgynghori arni gyda'r Cyhoedd a'r Prif Gwnstabl.

1.7 Mae Atodiad A yn cynnwys adroddiad Prif Swyddog Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gronfeydd wrth gefn a risg gyllidebol.

1.8 Mae Atodiad B yn cynnwys y cynllun ariannol tymor canolig hyd at 2019/20.

## 2. Cyllid - Setliad Dros Dro ar gyfer 2016/17

2.1 Ar 17 Rhagfyr 2015, cyhoeddwyd setliad ariannol dros dro yr heddlu ar gyfer 2016/17 mewn datganiad gweinidogol ysgrifenedig gan y Gweinidog Plismona, Cyfiawnder Troseddol a Dioddefwyr, y Gwir Anrhydeddus Mike Penning AS. Dilynwyd hyn ar yr un diwrnod gan setliad dros dro 2016/17 Llywodraeth Cymru ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru.

2.2 Cyhoeddodd datganiad y Gweinidog:

- Setliad dros dro yn cwmpasu dim ond blwyddyn;
- Cyfanswm cyllid o £640 miliwn ar gyfer gwrthderfysgaeth (cynnydd o 13% ers y llynedd);
- Brigdoriad o £218 miliwn (yn cynnwys £80 miliwn ar gyfer costau Rhwydwaith Gwasanaethau Brys craidd a chronfa arloesi gwerth £55 miliwn);
- Creu Cronfa Trawsnewid gwerth £76.4 miliwn er mwyn datblygu a darparu galluoedd arbenigol megis y rhai sydd eu hangen i fynd i'r afael â seiber-droseddu ac i alluogi cynnydd mawr mewn galluedd o ran drylliau.

2.3 Yn gyffredinol, mae Grantiau Cyfalaf yr Heddlu wedi gostwng o £120 miliwn (gyda £10 miliwn yn mynd i Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu) i £82 miliwn yn 2016/17 (gydag £16.5 miliwn yn mynd i Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu). Y canlyniad yw bod Grantiau Cyfalaf nad ydynt yn rhai sy’n ymwneud â Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu wedi gostwng 40%. Ni fydd dyraniad Dyfed-Powys o’r Grant Cyfalaf yn cael ei gyhoeddi tan y Setliad Terfynol ym mis Chwefror 2016.

2.4 Mae'r setliad wedi arwain at ostyngiad o 0.6% yn y grant craidd ar gyfer 2016/17 yn nhermau arian parod. Mae hyn yn cyfateb i £0.287 miliwn yn llai mewn cyllid canolog yn nhermau arian parod ar gyfer ardal Dyfed Powys yn 2016/17 o'i gymharu â 2015/16.

2.5 Daw cyllid Dioddefwyr gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn Adolygiad o Wariant 2015, cyhoeddodd y Canghellor gynnydd bychan mewn cyllid refeniw ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2016/17, ond arbediad cyffredinol o 15% ar adnoddau erbyn 2019/20. Rydym yn aros am gadarnhad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch pryd y byddwn yn derbyn ein dyraniad grant.

**Praesept yr Heddlu ar gyfer 2016/17**

3.1 Wrth bennu elfen yr heddlu o'r dreth gyngor (a elwir yn braesept) ar gyfer 2016/17, rwyf unwaith eto wedi bod yn ymwybodol o'r angen i gydbwyso'r pwysau ar gyllidebau cartrefi yn erbyn yr angen i ddarparu gwasanaeth plismona cyhoeddus effeithiol.

3.2 Ar 2 Rhagfyr 2015, rhoddodd y Prif Gwnstabl a'i Gyfarwyddwr Cyllid fanylion y gyllideb yr oeddent yn credu sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol gan gadw mewn cof yr angen i barhau i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd lle bo hynny'n bosibl. Derbyniais eu cynnig gan roi sicrwydd i'r Prif Gwnstabl am ei gyllideb ar gyfer 2016/17 a'r arbedion sydd eu hangen ar gyfer y tair blynedd dilynol.

3.3 Cynhaliwyd seminar gyda Phanel yr Heddlu a Throseddu ar 9 Rhagfyr 2015 lle y cafodd y Panel gyfle i drafod y sefyllfa gyllido bresennol, y blaenoriaethau ac ansicrwydd yn y dyfodol.

3.4 Rwyf wedi ymgynghori â'r cyhoedd ar lefel y praesept y byddaf yn ei bennu ar gyfer 2016/17. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 12 Rhagfyr 2015 ac 8 Ionawr 2016. Daeth cyfanswm o 449 o ymatebion i law, ond nid atebodd pob ymatebydd y tri chwestiwn a ofynnwyd.

3.5 Mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf, "Yn eich barn chi, ydych chi'n talu gormod, swm rhy isel, neu'r swm cywir ar gyfer yr heddlu?", dywedodd 47% eu bod yn teimlo eu bod yn talu'r swm cywir ar gyfer yr heddlu, dywedodd 23% eu bod yn teimlo eu bod yn talu gormod a dywedodd 30% eu bod yn teimlo eu bod yn talu swm rhy isel.

3.6 Mewn ymateb i'r ail gwestiwn, "Yn 2016/17 ar ba rai o'r materion hyn y dylai'r Comisiynydd ganolbwyntio yn eich barn chi", dangosir y pum prif fater y pleidleisiodd yr ymatebwyr drostynt yn nhabl 1. (Roedd yr ymatebwyr yn gallu pleidleisio dros fwy nag un mater).

**Tabl 1: Y pum prif fater y pleidleisiodd y cyhoedd drostynt**

| Mater | Canran |
|---|---:|
| Plismona cymunedol | 42% |
| Troseddau yn erbyn yr unigolyn | 28% |
| Troseddau lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | 27% |
| Plismona gweladwy | 26% |
| Troseddau difrifol | 25% |

3.7 Yn ogystal â'r setliad dros dro rwyf wedi ystyried perfformiad gweithredol ac ariannol Heddlu Dyfed-Powys ers i mi gael fy ethol.

3.8 Roedd gan y sefydliad gronfeydd sylweddol wrth gefn flwyddyn yn ôl ac felly penderfynais ddefnyddio rhai o'r cronfeydd wrth gefn hyn i leihau praesept y dreth gyngor ar gyfer 2015/16. Bydd y cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd 2015/16 wedi gostwng yn unol â hynny ac mae Heddlu Dyfed-Powys yn disgwyl i'w berfformiad ariannol ar gyfer 2015/16 gyrraedd y targed (ar ôl ystyried y cyfraniad a gynlluniwyd o'r cronfeydd wrth gefn).

3.9 Rwyf hefyd wedi ystyried ansicrwydd cyllid canolog yr heddlu yn y dyfodol:


- nid yw'r Adolygiad o Wariant diweddaraf yn darparu ffigurau y tu hwnt i 2016/17;
- bydd adolygiad o fformiwla cyllido'r heddlu yn ailddechrau yn gynnar yn 2016. Mae dau gylch ymgynghori eisoes wedi'u cynnal. I ddechrau, nododd ffigurau'r Swyddfa Gartref y byddai ein dyraniad o'r gronfa heddlu gyfan yn lleihau o 0.71% i 0.7% (gostyngiad yn y gyllideb o lai na £1 miliwn). Fodd bynnag, mae dadansoddiad gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfnaint a Chernyw yn nodi y gallai Dyfed-Powys golli cymaint ag £8 miliwn.

3.10 Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn, mae angen gwneud amcangyfrifon o lefel debygol y cyllid canolog yn y dyfodol at ddibenion cynllunio. Ar hyn o bryd, rhagwelir gostyngiad mewn cyllid canolog o 0.6% mewn termau arian parod ym mhob un o'r tair blynedd dilynol (er bod y senario waethaf o 5% o ostyngiad ariannol bob blwyddyn hefyd wedi ei modelu). Ni chollwyd y symiau blaenorol o danwariant; yn hytrach maent wedi atgyfnerthu cronfeydd wrth gefn Heddlu Dyfed-Powys. Gellid defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn i helpu Heddlu Dyfed-Powys i newid i fodel gweithredu newydd.


3.11 Disgwylir i'r perfformiad ariannol ar gyfer 2015/16 gyrraed y targed ac felly, yn unol â'm bwriad i leihau'r cynnydd ym mhraesept y dreth gyngor i'r eithaf fel y nodir yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu, bwriadaf osod lefel y praesept ar £43.330 miliwn ar gyfer 2016/17.

3.12 Mae hyn yn cyfateb i rewi praesept y dreth gyngor sy'n daladwy gan drigolion Dyfed-Powys o gymharu â 2015/16. Mae hyn yn golygu y bydd eiddo cyfartalog Band D yn parhau i dalu £200.07 yn 2016/17.

3.13 Mae'r graff canlynol yn dangos sut y mae cyfran yr incwm y mae Dyfed Powys yn ei derbyn o ffynonellau canolog o gymharu â ffynonellau lleol wedi newid dros amser:




3.14 Mae'r graff canlynol yn dangos sut y mae praesept y dreth gyngor wedi newid dros amser yn Nyfed Powys:




## 4. Cyllideb Ddrafft 2016/17

4.1 Canlyniad cyffredinol y setliad dros dro a'r praesept arfaethedig yw gostyngiad o £0.287 miliwn yn 2016/17 o gymharu â 2015/16 fel y dangosir yn y tabl isod.

**Tabl 2: Cyfanswm y Cyllid ar gyfer 2016/17 (Dros Dro)**

| | 2015/16 | 2016/17 | Newid | |
|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad** | **£M** | **£M** | **£M** | **%** |
| Grant Craidd yr Heddlu | 28.268 | 28.107 | | |
| Ychwanegu Rheol 1 + Cyllid Gwaelodol | 9.243 | 9.010 | | |
| Llywodraeth Cymru | 12.788 | 12.895 | | |
| **Cyllid Canolog** | **50.299** | **50.012** | | **-0.6** |
| | | | | |
| Sylfaen y Dreth Gyngor | 215,091 | 216,574 | | +0.7 |
| Treth Gyngor Band D (£) | 200.07 | 200.07 | | 0.0 |
| **Praesept** | **43.033** | **43.330** | | **+0.7** |
| | | | | |
| **Cyfanswm y Cyllid** | **93.332** | **93.342** | | **+0.0** |

4.2 Mae hyn wedi arwain at baratoi'r gyllideb gytbwys ganlynol ar gyfer 2016/17:

**Tabl 3: Cyllideb Refeniw Ddrafft ar gyfer 2016/17**

| | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|
| | **£M** | **£M** |
| Cyflogau Swyddfa'r Comisiynydd | 0.632 | 0.642 |
| Gwariant Arall Swyddfa'r Comisiynydd | 0.337 | 0.337 |
| **Cyfanswm Swyddfa'r Comisiynydd** | **0.969** | **0.979** |
| Comisiynu | 1.000 | 0.978 |
| **Cyfanswm Swyddfa'r Comisiynydd a Chomisiynu** | **1.969** | **1.957** |
| | | |
| **Cyfanswm yr Heddlu** (net o symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn) | **91.363** | **91.385** |
| | | |
| **Cyfanswm Swyddfa'r Comisiynydd, Comisiynu a'r Heddlu** | **93.332** | **93.342** |
| | | |

4.3 Mae dadansoddiad llawn o'r gwariant arfaethedig ar gyfer yr heddlu ar gyfer 16/17 (hyd at 2018/19) yn Atodiad B.

4.4 Yn 2016/17 rwy'n disgwyl i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ddarparu cyllid i mi ymgymryd â gwaith comisiynu yn bennaf mewn perthynas â gwasanaethau dioddefwyr a chyfiawnder adferol. Mae swm y cyllid eto i'w gyhoeddi, fodd bynnag, rwy'n disgwyl iddo fod oddeutu £550,000.

4.5 Hefyd, rwy'n disgwyl derbyn incwm o gyrsiau ailhyfforddi gyrwyr sy'n cael eu gweinyddu ar fy rhan gan yr heddlu. Yn ystod 2015/16 ymgynghorais â'r cyhoedd er mwyn penderfynu a ddylid neilltuo'r incwm hwn i'w wario ar fentrau diogelwch ar y ffyrdd ynteu a ddylid ei wario ar weithgareddau plismona cyffredinol. Pleidleisiodd y cyhoedd dros wario'r arian ar fentrau diogelwch ar y ffyrdd. Mewn ymateb dyfarnwyd grantiau o £151,000 gennyf i bedair menter ar wahân sy'n annog defnydd mwy diogel o'n ffyrdd ac ailfuddsoddwyd £181,000 yn Uned Plismona'r Ffyrdd Heddlu Dyfed-Powys. Ar hyn o bryd ni chyllidebwyd ar gyfer yr incwm hwn, ond gan y bydd yr incwm yn cael ei ailfuddsoddi yng ngwasanaethau'r heddlu, bydd hyn yn cael effaith net o sero ar y gyllideb.

4.6 Wrth baratoi'r gyllideb ar gyfer 2016/17, cymhwyswyd y ffactorau chwyddiant canlynol yng nghyllideb 2015/16:

**Tabl 4: Rhagdybiaethau Cyllideb ar gyfer 2016/17 (o gymharu â 2015/16)**

| Rhagdybiaethau Cyllideb (%) | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|
| Swyddogion yr Heddlu | 1% | 1% |
| Staff yr Heddlu | 1% | 1% |
| Chwyddiant | 2% | 1% |
| Tanwydd ar gyfer Adeiladau | 2% | 1% |
| Tanwydd ar gyfer Cerbydau | 2% | 1% |
| Grantiau | 0% | 0% |
| Incwm | 1% | 1% |
| Cyllid Cyfalaf | 0% | 0% |

4.7 Yn ogystal â phwysau o ran chwyddiant yn 2016/17, bydd newid yn y cyfraniadau Yswiriant Gwladol a wneir gan gyflogwyr yn ychwanegu £1.7 miliwn o gost (effaith net).

4.8 Mae newidiadau mewn strwythurau plismona gweithredol ar lefel leol ac uno strwythurau rheoli sy'n cwmpasu Plismona yn y Gymdogaeth ac Ymateb yn debygol o gyflawni arbedion o £754,000 yn 2016/17 a thu hwnt. Dylai £600,000 gael ei arbed hefyd drwy reoli'n well y goramser a'r oriau anghymdeithasol y bydd swyddogion yn eu gweithio.

4.9 Yn ystod 2015/16 daethpwyd â'r cytundeb Menter Cyllid Preifat ar gyfer Gorsaf Heddlu Rhydaman i ben. Bydd hyn yn sicrhau arbedion blynyddol tan 2031. Arbedir £493,000 yn 2016/17.

4.10 Bydd dull doethach o gaffael nwyddau a gwasanaethau, y defnydd o brisiau a gytunwyd yn genedlaethol a dull doeth o fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf a'u hariannu, gyda'i gilydd, yn cyflawni arbedion o £729,000 yn 2016/17.

4.11 Mae'r gyllideb amlinellol ar gyfer 2016/17 yn cynnwys gostyngiadau cost cylchol blynyddol fel yr amlinellir uchod. Mae'r rhain yn gyfystyr â £3.133 miliwn ac fe'u nodir isod. Gellir cyflawni'r arbedion hyn heb leihau nifer swyddogion yr heddlu.

**Tabl 5: Crynodeb Lleihau Costau ar gyfer 2016/17**

| | **Arbedion Disgwyliedig 2016/17** |
|---|---|
| | **£'000** |
| **Yn Gysylltiedig â Chyflogau** | |
| Model Gweithredu / Cymarebau Arolygu | -754 |
| Goramser ac Oriau Anghymdeithasol | -600 |
| Swyddogaethau Atal Troseddau | -300 |
| Cydweithredu / Cymorth Busnes / Heb fod yn gysylltiedig â chyflog | -405 |
| Cyfanswm | **-2,059** |
| **Heb Fod yn Gysylltiedig â Chyflogau** | |
| Plismona Gwyrdd | -206 |
| Adolygiad Winsor - Lwfansau Swyddogion | -150 |
| CLEP/Caffael | -329 |
| Menter Cyllid Preifat Rhydaman - | -493 |
| Arbedion Ystadau Eraill | -92 |
| Incwm Llog | -400 |
| Cynilion Pensiwn | -300 |
| | **-1,970** |
| **Cyfanswm yr Arbedion a Nodwyd** | **-4,029** |
| **Swyddogion ychwanegol i gynnal y niferoedd (nifer) presennol** | **896** |
| **Cyfanswm a Nodwyd** | **-3,133** |

## 5. Cronfeydd wrth Gefn

5.1 Dangosir y sefyllfa adeg agor a chau'r cronfeydd wrth gefn yn ystod 2015/16 yn y tabl isod.

**Tabl 6: Balansau Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2015/16**

| | Balans ar 1 Ebrill 2015 | Symudiad Net yn ystod y flwyddyn | Balans ar 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|---|
| | Gwirioneddol | Amcangyfrif | Amcangyfrif |
| | £M | £M | £M |
| Cronfeydd Refeniw a Glustnodwyd | 22.849 | -14.710 | 8.139 |
| Cronfeydd Cyfalaf | 18.155 | -0.673 | 17.482 |
| Cronfa Gyffredinol | 4.500 | 0.000 | 4.500 |
| **Cyfanswm** | **45.504** | **-15.383** | **30.121** |

5.2 Fel y gwelir yn y tabl uchod, mae symudiad sylweddol yn y gronfa refeniw wrth gefn a glustnodwyd yn ystod 2015/16. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i ddau benderfyniad a fydd yn tynnu cyfanswm o £11.6 miliwn o'r cronfeydd cyfalaf yn 2015/16. Mae'r gronfa gyfalaf yn chwarae rhan sylweddol o ran ariannu rhaglen waith bresennol yr adran ystadau ac felly bydd y gronfa gyfalaf ar ôl hynny yn cael ei hail-lenwi drwy drosglwyddo £11.6 miliwn o'r cronfeydd refeniw.

5.3 Mae'r symudiad hwn er mwyn ariannu'r canlynol:

- Dod â Menter Cyllid Preifat Gorsaf Heddlu Rhydaman i ben (£4 miliwn);

- Lleihau'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf i sero. Ar hyn o bryd mae'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf yn £7.6 miliwn ac mae'n cynrychioli angen sylfaenol y sefydliad i fenthyca at ddibenion cyfalaf a'r swm sydd eto i'w gyllido'n barhaol. Fodd bynnag, mae'r sefydliad wedi sefydlu Gofyniad Cyllid Cyfalaf cyn bod ei angen ac felly bydd y Gofyniad yn cael ei leihau i sero yn 2015/16 a gellir ei ailsefydlu yn ddiweddarach pan fydd yr angen yn codi.

5.4 Ar ddiwedd 2015/16 disgwylir i gyfanswm y cronfeydd wrth gefn fod oddeutu £30.121 miliwn. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am sut mae ein cynlluniau yn rhagweld gwariant o £24.103 miliwn dros y pedair blynedd nesaf. Ar ddiwedd 2019/20, rwy'n disgwyl i'r gronfa gyffredinol aros yn £4.5 miliwn. Bydd cronfeydd eraill wrth gefn yn £1.518 miliwn.

**Tabl 7: Y Defnydd o Gronfeydd wrth Gefn**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **Cyfanswm** |
| **Y Defnydd o Gronfeydd Wrth Gefn** | **£M** | **£M** | **£M** | **£M** | **£M** |
| Cyfraniad at Gyllid Cyfalaf | 0.422 | 0.431 | 0.439 | 0.447 | 1.739 |
| Pensiwn | 0.375 | 0 | 0 | 0 | 0.375 |
| Gwelliant Parhaus | 0.268 | 0 | 0 | 0 | 0.268 |
| Yswiriant | 0.038 | 0.039 | 0.040 | 0.041 | 0.158 |
| Cyfraniad at y gyllideb refeniw | 2.288 | 1.502 | 0.631 | 0 | 4.421 |
| Gwarchodfa cyn cyfraniad | 3.391 | 1.972 | 1.110 | 0.488 | 6.961 |
| Cyfraniad o'r gyllideb refeniw | -0.339 | 0 | 0 | 0 | -0.339 |
| **Cronfeydd Refeniw** | **3.052** | **1.972** | **1.110** | **0.488** | **6.662** |
| | | | | | |
| **Cronfeydd Cyfalaf** | **5.321** | **7.609** | **4.551** | **0** | **17.481** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y defnydd o Gronfeydd Wrth Gefn** | **8.373** | **9.581** | **5.661** | **0.488** | **24.103** |
| | | | | | |
| **Balans ar ddiwedd y flwyddyn** | **21.748** | **12.167** | **6.506** | **6.018** | |

5.5 Mae'r cyfraniad at linell refeniw y gyllideb yn y tabl uchod yn ymddangos o ganlyniad i benderfyniad y Comisiynydd y llynedd i leihau praesept y dreth gyngor 5% ac i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu elfen o'r cyllidebau refeniw ar gyfer 2015/16 i 2018/19.

## 6. Cyfalaf

6.1 Mae asedau sydd wedi'u cynnal a'u cadw a'u rheoli'n dda yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o ddarparu gwasanaethau plismona effeithlon. Felly mae'n gwneud synnwyr cynllunio sut y bydd yr asedau hyn yn cael eu cynnal a'u rheoli. Dangosir y rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2016/17 isod. Cyhoeddir grant cyfalaf y Swyddfa Gartref gyda'r setliad terfynol (a ddisgwylir ym mis Chwefror 2016) a disgwylir iddo leihau'n sylweddol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae amcangyfrif wedi'i gynnwys isod:

**Tabl 8: Rhaglen Gyfalaf Ddrafft ar gyfer 2016/17 i 2019/20**

| **Rhaglen Gyfalaf** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£M** | **£M** | **£M** | **£M** | **£M** |
| Tir ac Adeiladau | 2.700 | 6.800 | 5.800 | 0.700 | 16.000 |
| Cerbydau (Gan gynnwys Cwch) | 1.264 | 0.972 | 1.044 | 1.037 | 4.317 |
| TG a Gwariant Strategol Arall | 3.893 | 1.336 | 0.975 | 0.975 | 7.179 |
| **Gwariant Cyfalaf** | **7.857** | **9.108** | **7.819** | **2.712** | **27.496** |
| | | | | | |
| Cyllid Grant | 0.500 | 0.500 | 0.500 | 0.500 | 2.000 |
| Benthyca | 0 | 0 | 2.106 | 1.765 | 3.871 |
| Derbyniadau | 1.500 | 0.500 | 0.200 | 0 | 2.200 |
| Credyd Cyfalaf Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu | 0.114 | 0.068 | 0.023 | 0 | 0.205 |
| Cyfraniad o'r Cronfeydd Wrth Gefn | 0.422 | 0.431 | 0.439 | 0.447 | 1.739 |
| Cronfeydd Cyfalaf | 5.321 | 7.609 | 4.551 | 0 | 17.481 |
| **Cyllid Cyfalaf** | **7.857** | **9.108** | **7.819** | **2.712** | **27.496** |

## Atodiad A - Adroddiad y Prif Swyddog Cyllid

### 1. Balansau, Darpariaethau a Chronfeydd

1.1 Yn unol â'r "Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol" (FMCoP) mae’r CHTh wedi ystyried rôl y cronfeydd wrth gefn wrth lunio'r cynllun ariannol tymor canolig a chyllideb flynyddol. Y CHTh sy'n gyfrifol am sicrhau digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn er mwyn gallu ymateb i bwysau annisgwyl ar y gyllideb wedi'i arwain gan alw heb gael effaith niweidiol ar gyflawni blaenoriaethau allweddol.

1.2 Mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r CHTh sefydlu polisi ar gronfeydd wrth gefn (gan gynnwys sut y gellid eu defnyddio gan y Prif Gwnstabl) drwy ymgynghori â'r Prif Gwnstabl (PG). Mae'r Adran hon o'r adroddiad yn nodi penderfyniadau CHTh ar gronfeydd wrth gefn er mwyn gallu cyfathrebu'n glir i drethdalwyr lleol a thrwy hynny hybu atebolrwydd.

1.3 O fewn y polisi cronfeydd wrth gefn presennol a'r trefniadau llywodraethu cysylltiedig, y Prif Swyddog Cyllid sy’n gyfrifol am:

- Sicrhau bod cyngor yn cael ei ddarparu ar lefelau'r cronfeydd wrth gefn a balansau yn unol â chanllawiau arfer da;
- Pan gaiff y gyllideb ei hystyried a phan gaiff y praesept ei bennu, adrodd ar gadernid amcangyfrifon y gyllideb a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn, fel sy'n ofynnol o dan a25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, ac yn unol â chanllawiau CIPFA.

1.4 Mae yna hefyd amrywiaeth o fesurau diogelu ar waith sy'n atal y Comisiynydd rhag gorymrwymo'n ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gofyniad i fantoli'r gyllideb;
- Pwerau Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol i brif swyddogion cyllid sy'n gofyn i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd i'r CHTh os oes gwariant anghyfreithlon neu gyllideb heb ei mantoli neu os yw hynny'n debygol o ddigwydd;
- Mae cyfrifoldeb yr archwilydd allanol i adolygu'r sefyllfa ariannol ac adrodd arni yn cynnwys adolygiad o lefel y cronfeydd wrth gefn gan ystyried ei gwybodaeth am berfformiad sefydliadau dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, nid yw'n gyfrifoldeb ar archwilwyr i ragnodi'r lefel uchaf neu isafswm o gronfeydd wrth gefn ar gyfer sefydliadau unigol.

## 2. Datganiad ar Gronfeydd Wrth Gefn

**Lefel y gronfa gyffredinol ac unrhyw symudiadau yn y gronfa**

2.1 Mae deddfwriaeth a chanllawiau eraill yn mynnu bod cronfa gyffredinol yn cael ei chynnal. Er nad yw CIPFA yn pennu isafswm lefel ar gyfer cronfa gyffredinol, ei ganllawiau cyffredinol yw sefydlu cronfa wrth gefn sy'n cynrychioli *adnoddau a neilltuwyd at ddibenion megis rheoli argyfyngau cyffredinol a llif arian*.

2.2 Yng Nghanllawiau CIPFA, sef "Guidance Note on Local Authority Reserves and Balances" nodir bod angen Cronfa Gyffredinol i weithredu fel *cydbwysedd i helpu i liniaru effaith llif arian anwastad ac osgoi benthyca dros dro diangen - mae hyn yn rhan o gronfeydd cyffredinol*. Mae angen Cronfa Gyffredinol hefyd i weithredu fel *cronfa wrth gefn i liniaru effaith digwyddiadau neu argyfyngau annisgwyl - mae hyn hefyd yn rhan o gronfeydd wrth gefn cyffredinol.*

*2.3* Mae cynnal Cronfa Gyffredinol yn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i Awdurdodau Lleol *roi sylw i lefel y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen ar gyfer gwariant amcangyfrifedig yn y dyfodol wrth gyfrifo'r gofyniad o ran y gyllideb.*

2.4 Yn hanesyddol, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi argymell bod y gronfa gyffredinol wrth gefn yn cael ei gosod ar o leiaf 2.5% o'r gyllideb gwariant refeniw net. Mae polisi CHThar gronfeydd wrth gefn yn datgan na ddylai'r gronfa gyffredinol fod yn fwy na 5% o'r gyllideb gwariant refeniw net. Mae polisi' CHTh ar gronfeydd wrth gefn hefyd yn gofyn am asesiad o risg wrth bennu lefelau cronfeydd wrth gefn.

2.5 Ar hyn o bryd mae'r gronfa gyffredinol yn £4.500 miliwn sy'n cyfateb i 4.8% o gyllideb gwariant refeniw net 2016/17 ac mae felly o fewn y paramedrau sydd ym mholisi cronfeydd wrth gefn y CHTh. Mae'r tri ffactor canlynol wedi cael eu hystyried wrth benderfynu ar y lefel briodol ar gyfer y gronfa gyffredinol:

**A. Sefyllfa ariannol gyffredinol a digonolrwydd rheolaeth ariannol**

2.6 Wrth bennu lefel y gronfa gyffredinol, mae'n bwysig cofio sefyllfa ariannol gyffredinol Heddlu Dyfed-Powys a digonolrwydd y rheolaethau ariannol sydd ar waith. Mae'r sefyllfa ariannol gyffredinol wedi cael ei hystyried gan y Comisiynydd fel rhan o broses y gyllideb ac, er yn ddiogel, yn cael ei heffeithio'n sylweddol gan y bygythiad o ostyngiadau yng nghyllid y llywodraeth yn y dyfodol, ac mae'n rhaid cadw hynny mewn cof.

2.6 Mae hefyd yn bwysig cofio cyd-destun y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig er mwyn i'r CHTh barhau i gydymffurfio â "Guidance Note on Local Authority Reserves and Balances" CIPFA sy'n awgrymu y *dylid rhoi cyngor ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn yn ystod oes y cynllun ariannol tymor canolig*.

**B. Amlygiad i risg ac asesu risg**

2.8 Rhaid i'r broses o bennu lefelau cronfeydd wrth gefn gael ei hystyried yng nghyd-destun risg os ydym am gydymffurfio â chanllawiau CIPFA sy'n datgan *er mwyn asesu pa mor ddigonol yw'r cronfeydd cyffredinol heb eu dyrannu, dylid ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r awdurdod*.

2.9 Er nad yw amlygiad i risg a lliniaru'r risg honno o reidrwydd yn arwain at gynnydd sylweddol mewn gwariant, bydd yn dylanwadu ar lefel y cronfeydd cyffredinol o flwyddyn i flwyddyn.

2.10 Mae pedair risg allweddol yn berthnasol i lefel y cronfeydd cyffredinol nawr ac yn y dyfodol, a chânt eu hamlinellu isod.

- Ansefydlogrwydd economaidd - oherwydd bod yr amodau economaidd yn gwaethygu, a gostyngiadau termau real mewn lefelau praesept a grantiau'r llywodraeth, y risg y bydd y gofynion cynyddol o ran adnoddau yn cael effaith sylweddol ar adnoddau ariannol sydd eisoes dan bwysau. Bydd hyn yn arwain at gyfyngu ar weithgarwch a datblygiadau gweithredol dros y pedair blynedd nesaf a thu hwnt, er enghraifft, lleihau'r gallu i gynnig y lefel o blismona cymunedol y mae'r cyhoedd yn ei disgwyl oni bai yr awdurdodir mwy o ddefnydd o gronfeydd wrth gefn;
- Capio - mae cadw'r dreth gyngor o dan reolaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth;
- Risgiau Allanol - megis marchnadoedd ariannol byd-eang sydd wedi eu hystyried wrth bennu cronfeydd wrth gefn, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn parhau i fod yn 0.5%;
- Digwyddiadau mawr gweithredol - fel rhan o Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys mae asesiad risg o debygolrwydd ac effaith ystod o ddigwyddiadau mawr a allai ddigwydd o fewn ardal yr Heddlu wedi cael ei gynnal. Gwneir darpariaeth ar gyfer hyn o fewn y gronfa sydd wedi'i neilltuo ar gyfer digwyddiadau mawr.

**C. Barn y Cyhoedd**

2.11 Mae'r ffaith bod y cyhoedd yn derbyn y praesept yn dibynnu'n rhannol ar y ddealltwriaeth bod y praesept yn cael ei wario ar blismona ac mai dim ond swm rhesymol a darbodus o unrhyw gyllid dros ben sy'n cael ei roi o'r neilltu fel cronfa gyffredinol. I'r gwrthwyneb, pan fydd gwariant annisgwyl yn codi, mae'n debygol y byddai'r cyhoedd yn disgwyl y byddai gan y CHTh ddigon o adnoddau i dalu am y gost heb droi at orwario.

**Digonolrwydd y cronfeydd cyffredinol ac amcangyfrif o ddarpariaethau mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sydd i ddod a strategaeth ariannol tymor canolig y CHTh a'r PG.**

2.12 Yn seiliedig ar yr uchod, awgrymir bod lefel y gronfa gyffredinol yn cael ei chynnal ar £4.5 miliwn sy'n 4.8% o'r gyllideb gwariant refeniw net arfaethedig ar gyfer 2016/17. Awgrymir bod y cydbwysedd hwn yn cael ei gadw ar y lefel hon o ystyried effaith bosibl newid fformiwla a phwysau ariannol eraill yn y dyfodol.

**Yr adolygiad blynyddol o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gan gynnwys amcangyfrifon o'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn**

2.13 Caiff cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd eu cadw fel modd o adeiladu cronfeydd i ddiwallu gofynion hysbys neu a ragwelir. Mae'r prif gronfeydd refeniw a glustnodwyd ac sy'n cael eu cadw gan y CHTh wedi eu hadolygu fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2016/17.

2.14 Ar ddechrau 2015/16, roedd y cronfeydd refeniw a glustnodwyd yn £22.849 miliwn a disgwylir i'r balans ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fod tuag £8.139 miliwn. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn yn adlewyrchu'r sefyllfa ar ôl i'r CHTh ddefnyddio £2.265 miliwn o'r cronfeydd refeniw fel cyfraniad tuag at gyllideb refeniw 2015/16 fel y cynlluniwyd yn ystod y broses o bennu cyllideb a phraesept 2015/16 a hefyd o ganlyniad i ailgyflenwi cronfeydd cyfalaf sy'n cael eu cynllunio i ariannu'r broses o ddod â Menter Cyllid Preifat Gorsaf Heddlu Rhydaman i ben a lleihau'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf i sero (gweler isod am ragor o fanylion).

2.15 Roedd y cronfeydd cyfalaf (gan gynnwys grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso) ar ddechrau 2015/16 yn £18.155 miliwn. Yn ychwanegol at y defnydd disgwyliedig o gronfeydd wrth gefn, roedd dau ddigwyddiad a fydd yn effeithio'n sylweddol ar y gronfa wrth gefn hon yn ystod 2015/16:

- Daeth y CHTh â'r Fenter Cyllid Preifat ar gyfer Gorsaf Heddlu Rhydaman i ben yn gynnar a thrwy hynny sicrhau arbedion dros oes y cytundeb. Bydd y taliad o £4 miliwn a wnaed yn cael ei ariannu o'r cronfeydd cyfalaf fwy na thebyg. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'n harchwilwyr allanol, Swyddfa Archwilio Cymru, i benderfynu sut i drin y taliad untro hwn. Bwriedir trosglwyddo £4 miliwn o'r gronfa refeniw i'r gronfa gyfalaf i ariannu hyn;

- Cynhaliodd ein cynghorwyr rheoli'r trysorlys, Arlingclose, adolygiad o'n harferion rheoli trysorlys presennol yn ystod 2015/16 gyda'r nod o leihau costau refeniw a chynyddu'r incwm a gynhyrchir. Yn yr adolygiad hwn rhoddodd Arlingclose gyngor i ddefnyddio £7.6 miliwn o'n cronfa gyfalaf wrth gefn yn erbyn y Gofyniad Cyllid Cyfalaf presennol cyfan gan leihau i sero ein Darpariaeth Isafswm Refeniw. (Tâl blynyddol ar ein cyllideb refeniw yw'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw i adlewyrchu cost ein gwariant cyfalaf dros amser a ariannwyd yn wreiddiol gan ddyled.) Bydd gwneud hynny'n lleihau ein cyllideb refeniw flynyddol. Byddai'r swm a gaiff ei arbed yn 2016/17 tua £300,000 ac mae hyn yn cael ei gynnwys yn y cynllun arbedion ar gyfer 2016/17. Unwaith eto, bydd arian yn cael ei drosglwyddo o'r gronfa refeniw i'r gronfa gyfalaf er mwyn ariannu hyn ac er mwyn sicrhau bod digon o gronfeydd cyfalaf wrth gefn ar gael i ariannu rhaglen waith barhaus yr adran ystadau.

2.16 Mae ein rhaglen gyfalaf ddrafft bresennol yn gofyn am gyfanswm o £27.496 miliwn dros y pedair blynedd nesaf. Disgwylir i £5.321 miliwn gael ei wario yn 2016/17, a rhagwelir y bydd cyfanswm o £17.481 miliwn yn cael ei wario dros y pedair blynedd nesaf. Mae trosglwyddo £11.6 miliwn o'r gronfa refeniw i'r gronfa gyfalaf yn ystod 2015/16 yn caniatáu i'r rhaglen gyfalaf bresennol gael ei chyllido'n llawn dros y pedair blynedd nesaf. Felly, fel y saif ein cynlluniau ar hyn o bryd, bydd y gronfa gyfalaf gyfan wedi'i disbyddu erbyn diwedd 2019/20.

**Jayne Woods - Prif Swyddog Cyllid CHTh**

## 3. Risg Gyllidebol

3.1 Mae Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd i'r CHTh, ar yr adeg y mae'r gyllideb yn cael ei phennu, ar y risgiau a'r ansicrwydd a allai olygu bod angen gwario mwy ar y gwasanaeth na'r hyn a gynlluniwyd. Caniateir ar gyfer y risgiau hyn drwy:

- gynnwys lwfans darbodus yn yr amcangyfrifon; a hefyd
- sicrhau bod cronfeydd wrth gefn digonol ar gael os bydd yr amcangyfrifon ar gyfer y gwasanaeth yn annigonol.

3.2 Mae'n bwysig bod y CHTh yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod risg gyllidebol wedi cael ei lleihau pan fydd y gyllideb yn cael ei phennu. Rhaid i lefel y risg gyllidebol gael ei hystyried yn ffurfiol gan y CHTh ar sail cyngor a barn ei Brif Swyddog Cyllid.

3.3 Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2016/17 yn adlewyrchu'r risgiau mesuradwy a nodwyd; fodd bynnag, nid yw wedi bod yn bosibl cynnwys y risgiau canlynol:

- Diwygiadau i hysbysiad terfynol grantiau'r llywodraeth o gymharu â'r ffigurau dros dro a gynhwysir yn yr adroddiad hwn neu ar gyfer y blynyddoedd i ddod;
- Arbedion cost llawn ychwanegol o ffigurau cyllideb diwygiedig y blynyddoedd i ddod - bydd mwy o waith yn mynd rhagddo ar hyn wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen;
- Effaith adolygiadau o'r cynllun pensiwn ar gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr.

3.4 Er mwyn galluogi'r CHTh i ddod i benderfyniad, mae ei Brif Swyddog Cyllid wedi cynnal asesiad risg o eitemau materol y cyllidebau refeniw a chyfalaf sy'n cael ei gynnwys ar y tudalennau canlynol. Mae'r dadansoddiad risg wedi'i wneud ar y gwahanol benawdau cyllideb ac maent wedi'u hasesu ar sail % y gyllideb refeniw net a ffactorau hysbys a allai ddylanwadu ar lefelau gwariant neu incwm gwirioneddol.

**Tabl 9: Asesiad Risg o Gyllidebau Deunyddiau**

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel y risg | Risg a Nodwyd | Ffactor Lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Costau Cyflogau Swyddogion yr Heddlu | 55% | Uchel | Nifer y swyddogion a gyflogir yn cynyddu uwchlaw'r nifer cymeradwy a ariennir.<br>Taliadau goramser am ddigwyddiadau/gweithrediadau/ ymchwiliadau mawr sydd heb eu rheoli a'u monitro, ac felly yn uwch na'r gyllideb.<br>Gallai lwfansau ar gyfer taliadau bonws, ac ati fynd uwchlaw'r gyllideb. | Mae niferoedd y staff yn cael eu monitro'n barhaus fel rhan o'r broses o reoli'r gyllideb. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Adnoddau yn cyfarfod yn fisol i fonitro a rheoli'r sefydliad ar sail strategol. Mae Gweithdrefn Monitro Cyllideb ar waith gydag adroddiadau rheolaidd ar y gyllideb yn cael eu cyflwyno i Grŵp y Prif Swyddogion a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.<br>Mae gan yr adran Adnoddau Dynol gynllun recriwtio ar gyfer y flwyddyn i ddod yn seiliedig ar y nifer arfaethedig o ymddeoliadau swyddogion yr heddlu, y rhai sy'n gadael a'r rhai sy'n trosglwyddo. Mae'r nifer ofynnol o swyddogion newydd ar gyfnod prawf wedi'u cynllunio ac yn cael eu dyrannu'n briodol.<br>Mae cynrychiolaeth cyllid ar grwpiau aur a grwpiau ymchwilio gweithredol eraill bellach yn digwydd fel mater o drefn. Mae hyn yn galluogi goramser a chostau eraill i gael eu monitro'n fanwl ac i adroddiadau gael eu cyflwyno arnynt ym mhob cyfarfod. |

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel y risg | Risg a Nodwyd | Ffactor Lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Costau Cyflogau Staff yr Heddlu (gan gynnwys Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu) | 27% | Uchel | Nifer y staff a gyflogir yn cynyddu uwchlaw'r nifer cymeradwy a ariennir.<br>Prosiectau y mae angen cyfranogiad y staff arnynt y tu allan i oriau gwaith arferol yn cael eu costio'n gywir ar gyfer costau ychwanegol fel goramser etc. | Mae niferoedd y staff yn cael eu monitro'n barhaus fel rhan o'r broses o reoli'r gyllideb. Mae proses Porth yn cael ei sefydlu i fonitro a rheoli niferoedd y staff ar sail strategol. Mae Gweithdrefn Rheoli Cyllideb ar waith.<br>Bydd staff proffesiynol y gyflogres ac adnoddau dynol yn ymwneud â'r gwaith o sefydlu hawl y staff am oriau ychwanegol. |
| Pensiynau Swyddogion yr Heddlu | 13% | Canolig | Yn gysylltiedig â chostau cyflogau swyddogion yr heddlu uchod. Bydd ein cyfraniad at bensiynau yn lleihau, fodd bynnag, y Swyddfa Gartref fydd yn elwa ar y gostyngiad, yn hytrach na heddluoedd.<br>Mae'n rhaid i ni ysgwyddo'r risg y bydd cyfraniadau'n cynyddu yn y dyfodol ynghyd â newidiadau yn y ffordd y mae rhai elfennau megis taliadau am anafiadau'n cael eu trin. | Yn gysylltiedig â chostau cyflogau swyddogion yr heddlu uchod.<br>Y gallu i ddiwygio proffiliau recriwtio yn ystod y flwyddyn. |

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel y risg | Risg a Nodwyd | Ffactor Lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Costau Staff Anuniongyrchol | 0.8% | Canolig | Gallai'r rhain gynyddu uwchlaw'r gyllideb. | Mae cyllidebau hyfforddi wedi eu pennu i adlewyrchu gofynion gweithredol hanfodol. Mae cyllidebau'n cael eu monitro'n fisol. |
| Costau Adeiladau | 4% | Canolig | Mae cynnydd yn yr ystâd yn gofyn am gynnydd mewn costau rhedeg adeiladau.<br>Gall amrywiadau mewn prisiau trydan a nwy barhau wrth i gontractau gael eu hailnegodi. | Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei hystyried yn rhan o Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r broses o bennu cyllideb flynyddol.<br>Mae'r adran gaffael yn cynnwys yr adran gyllid mewn trafodaethau ynghylch contractau.<br>Mae gweithdrefnau monitro cyllideb cadarn ar waith a chânt eu dilyn. |
| Costau Trafnidiaeth | 2% | Canolig | Gallai cynnydd ym maint y fflyd ddigwydd heb gynnydd digonol yn y costau rhedeg.<br>Yn ddiweddar, rydym wedi elwa ar ostyngiadau annisgwyl mewn prisiau tanwydd. Fodd bynnag, gall y gostyngiadau diweddar hyn gael eu gwyrdroi yr un mor gyflym yn sgil cynnydd sylweddol ym mhrisiau tanwydd, gan arwain at orwariant. | Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei hystyried yn rhan o Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r broses o bennu cyllideb flynyddol.<br>Mae'r Grŵp Cerbydau Strategol yn cyfarfod i drafod y fflyd cerbydau - grŵp sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyllid.<br>Caiff prisiau tanwydd eu monitro a chaiff eu heffaith ei asesu'n rheolaidd drwy'r gweithdrefnau monitro cyllideb cadarn sydd ar waith. |

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel y risg | Risg a Nodwyd | Ffactor Lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Cyflenwadau a Gwasanaethau a Chomisiynu | 11% | Canolig | Gallai archebion nad ydynt yn archebion prynu arwain at orwariant yn erbyn y gyllideb. | Caiff archebion prynu eu prosesu gyda phroses gwirio cyllideb yn rhan annatod ohoni ar gyfer eitemau gwerth uchel.<br>Mae'r Adran Gaffael yn sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau'n cael eu caffael yn unol â Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol.<br>Mae gweithdrefnau monitro cyllideb cadarn ar waith a chânt eu dilyn.<br>Caiff gwasanaethau a gomisiynir gan y CHTh eu hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr Comisiynu. |
| Gwasanaethau Asiantaethau a Gwasanaethau ar Gontract | 2% | Isel | Ddim yn sylweddol | Ddim yn sylweddol |
| Cyllid Cyfalaf | 1% | Isel | Ddim yn sylweddol | Ddim yn sylweddol |

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel y risg | Risg a Nodwyd | Ffactor Lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Grant Penodol | -8% | Uchel | Dylid defnyddio grantiau yn unol â thelerau ac amodau'r grant.<br>Efallai y bydd darparwyr grant yn dod â thaliadau i ben gydag ychydig iawn o rybudd. | Mae cofrestr grantiau yn cofnodi pob grant sy'n ddyledus.<br>Dylid recriwtio i swyddi a ariennir gan grantiau ar sail dros dro am gyfnod y grant.<br>Caiff holl delerau'r grant eu hawdurdodi gan y Prif Swyddog Cyllid.<br>Caiff holl ffurflenni Diwygio Niferoedd y Staff eu hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Pennaeth Adnoddau Dynol.<br>Caiff gwasanaethau a Gomisiynir gan y CHTh eu hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid. |
| Incwm Arall | -4% | Isel | Ddim yn sylweddol | |
| Y Defnydd o Gronfeydd Wrth Gefn | -3% | Canolig | Ni ddylid defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant cylchol.<br>Gellir ymateb i bwysau annisgwyl ar gyllidebau yn sgil galwadau heb effaith andwyol. | Nid oes gan yr Heddlu unrhyw Gronfeydd Gweithredol Wrth Gefn heblaw am gyfleoedd trosglwyddo arian cyfyngedig. Mae'r sefyllfa ariannol yn cael ei monitro'n rheolaidd drwy Grŵp Prif Swyddogion yr heddlu. |

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel y risg | Risg a Nodwyd | Ffactor Lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf | Amh. | Uchel | Mae maint, cost uchel a chymhlethdod prosiectau cyfalaf yn cynyddu'r risg o wario mwy na'r cyllidebau, llithro o ran yr amserlenni a pheidio â chyflawni amcanion yr achos busnes gwreiddiol. | Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei chymeradwyo a'i monitro gan y CHTh. Mae'r Prif Swyddogion yn cael adroddiadau rheolaidd ac yn monitro cynnydd prosiectau cyfalaf yng Ngrŵp y Prif Swyddogion. Mae trefniadau llywodraethu ar waith sy'n cwmpasu pob prosiect mawr ar gyfer yr heddlu. |

**Jayne Woods - Prif Swyddog Cyllid CHTh**

## Atodiad B - Cynllun Tymor Canolig

### 1. Cyllid yn y Dyfodol

1.1 Mae cryn ansicrwydd wedi bodoli ynghylch setliadau ariannol yn y dyfodol ers peth amser. Fodd bynnag, rhoddodd llythyr yr Ysgrifennydd Cartref a ysgrifennwyd ar ddiwrnod Adolygiad o Wariant 2015 rywfaint o wybodaeth ddefnyddiol. Bydd y setliad ar gyfer plismona, gan gynnwys cyllid ar gyfer gwrthderfysgaeth, yn cael ei leihau 1.3% mewn termau real dros bedair blynedd. Gan ystyried incwm lleol, bydd y setliad yn diogelu gwariant yr heddlu mewn termau real dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant. Roedd y newyddion hwn yn well na'r disgwyl oherwydd o'r blaen, disgwyliwyd i adrannau heb eu diogelu wynebu gostyngiadau o tua 27% dros dair blynedd.

1.2 Fodd bynnag, ni esboniodd yr Adolygiad o Wariant sut y byddai setliad cyffredinol yr heddlu yn effeithio ar heddluoedd unigol. Cafodd hyn ei ddarparu gan y setliad dros dro a gyhoeddwyd ar 17 Rhagfyr 2015. Cyhoeddodd datganiad Mike Penning ostyngiad ar gyfradd unffurf mewn cyllid grant o 0.6% yn nhermau arian parod ar gyfer yr holl heddluoedd. Yn ôl y disgwyl, dim ond blwyddyn yr oedd y setliad hwn yn ei gwmpasu.

1.3 Mae canlyniad yr Adolygiad o Wariant a'r setliad dros dro wedi arwain at newid yn y rhagdybiaethau a wnaed yn y cynllun tymor canolig. Yn flaenorol, mae'r gostyngiadau o flwyddyn i flwyddyn o 5% wedi eu modelu a'u defnyddio fel y senario fwyaf tebygol. Fodd bynnag, o ystyried y newyddion uchod, rhagwelir mai gostyngiadau arian parod o flwyddyn i flwyddyn o 0.6% yw'r senario fwyaf tebygol. Wedi dweud hynny, mae'r senario waethaf o ostyngiadau blynyddol o 5% mewn cyllid canolog hefyd wedi cael ei modelu at ddibenion cynllunio.

1.4 Roedd dwy rownd ymgynghori ar y fformiwla gyllido yn 2015/16. Cafodd y broses ei hatal ym mis Tachwedd 2015 a, hyd yma, ni chafwyd cyhoeddiad ar ymgynghoriad pellach neu gamau nesaf gan y Swyddfa Gartref. Er bod newid yn y fformiwla yn creu risgiau posibl i ni, rydym yn credu nad oes angen gwneud unrhyw addasiadau pellach i'r senarios tymor canolig a fodelwyd gan y dylai'r rhain gwmpasu holl ganlyniadau tebygol adolygiad o fformiwla gyllido.

1.5 Tybiwyd y byddai praesept y dreth gyngor yn cynyddu 2% (gan adlewyrchu'r cynnydd o ran chwyddiant a ragdybiwyd ar gyfer costau nad ydynt yn gyflogau) dros weddill y cynllun tymor canolig.

1.6 Canlyniad y senario fwyaf tebygol yw cynnydd bach mewn cyllid o flwyddyn i flwyddyn fel y gwelir yn y tabl isod:

**Tabl 10: Cyfanswm y Cyllid ar gyfer 2016/17 i 2019/20**

| | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** |
|---|---|---|---|---|
| | **£M** | **£M** | **£M** | **£M** |
| Grantiau Canolog | 50.012 | 49.712 | 49.414 | 49.117 |
| Praesept y Dreth | 43.330 | 44.506 | 45.714 | 46.954 |
| **Cyfanswm y Cyllid** | **93.342** | **94.218** | **95.127** | **96.072** |
| **Newid yn erbyn y flwyddyn flaenorol (£ miliwn)** | **+0.010** | **+0.876** | **+0.909** | **+0.945** |
| **% y Newid** | **0.01%** | **0.9%** | **1.0%** | **1.0%** |

1.7 Mae'r senario uchod yn arwain at ostyngiad yng nghyfanswm y cyllid o £2.740 miliwn dros bedair blynedd. Mae rhedeg y model ar gyfer gostyngiadau o 5% o flwyddyn i flwyddyn yn arwain at gyfanswm o £3.499 miliwn o ostyngiad mewn cyllid.

1.8 Mae'r cyfrifiadau manwl sy'n cefnogi'r ffigurau yn y tabl uchod wedi'u cynnwys yn y tabl olaf ond un isod.

## 2. Pwysau ar Gostau Na Ellir Eu Hosgoi

2.1 Disgwylir y bydd cyflogau a chwyddiant mewn prisiau dros y cyfnod yn cynyddu costau darparu gwasanaethau plismona a gwnaed y rhagdybiaethau canlynol mewn perthynas â'r rhain:

**Tabl 11: Rhagdybiaethau am Chwyddiant 2015/16 i 2019/20**

| **Rhagdybiaethau Cyllideb (%)** | **15/16** | **16/17** | **17/18** | **18/19** | **19/20** |
|---|---|---|---|---|---|
| Swyddogion yr Heddlu | 1.0% | 1.0% | 1.0% | 1.0% | 1.0% |
| Staff yr Heddlu | 1.0% | 1.0% | 1.0% | 1.0% | 1.0% |
| Chwyddiant | 2.0% | 1.0% | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Tanwydd ar gyfer Adeiladau | 2.0% | 1.0% | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Tanwydd ar gyfer Cerbydau | 2.0% | 1.0% | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Grantiau | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Incwm | 1.0% | 1.0% | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Cyllid Cyfalaf | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |

2.2 Bydd gweithredu'r newidiadau i Yswiriant Gwladol (YG) o fis Ebrill 2016 hefyd yn ychwanegu'n sylweddol at gostau plismona yn y flwyddyn honno. Amcangyfrifir y bydd hyn yn cael effaith net o £1.7 miliwn ar gyfer y flwyddyn 2016/17 a £0.5 miliwn arall yn 2017/18.

2.3 Yn ychwanegol at y cynnydd hwn mewn costau sylfaenol, datblygwyd cynllun cynilo sydd i fod i gyflawni arbedion o £6.217 miliwn dros y pedair blynedd nesaf. Mae manylion yr arbedion hyn yn y tabl isod:

**Tabl 12: Crynodeb Lleihau Costau ar gyfer 2016/17 i 2019/20**

| | Cynlluniau blynyddol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lleihau costau'r Heddlu** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **Cyfanswm** |
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| Model Gweithredu / Cymarebau Arolygu | -0.754 | -0.360 | -0.360 | 0.000 | **-1.474** |
| Moderneiddio'r Gweithlu | 0.000 | -0.100 | -0.100 | 0.000 | **-0.200** |
| Swyddogaethau Atal Troseddau | -0.300 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | **-0.300** |
| Cyfiawnder Troseddol – y Ddalfa | 0.000 | 0.000 | -0.500 | 0.000 | **-0.500** |
| Goramser ac Oriau Anghymdeithasol yr Heddlu | -0.600 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | **-0.600** |
| Menter Cyllid Preifat Rhydaman | -0.493 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | **-0.493** |
| Cefnogaeth Awyr / Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | **0.000** |
| Swyddog Lwfansau / Winsor | -0.150 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | **-0.150** |
| CLEP / Caffael | -0.329 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | **-0.329** |
| Plismona Gwyrdd | -0.206 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | **-0.206** |
| Arbedion ystadau | -0.092 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | **-0.092** |
| Incwm Llog | -0.400 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | **-0.400** |
| Cronfa Bensiwn | -0.300 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | **-0.300** |
| Cydweithredu / Cymorth Busnes / Heb fod yn gysylltiedig â chyflog | -0.405 | -0.500 | -0.500 | -0.400 | **-1.805** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm yr Arbedion a Nodwyd** | **-4.029** | **-0.960** | **-1.460** | **-0.400** | **-6.849** |
| Swyddogion ychwanegol i gadw'r niferoedd presennol | 0.900 | 0.300 | 0.500 | 0.000 | **1.700** |
| **Cyfanswm yr Arbedion a Nodwyd** | **-3.129** | **-0.660** | **-0.960** | **-0.400** | **-5.149** |

2.4 Rhoddir crynodeb isod o effaith cymhwyso'r rhagdybiaethau, y pwysau ar gostau a'r arbedion a nodwyd. Y tu hwnt i'r arbedion a nodwyd, mae bwlch arbedion o 2017/18 ymlaen yn parhau. Mae'r rhain yn gyfystyr â chyfanswm o £2.203 miliwn:

**Tabl 13: Bwlch arbedion ar gyfer 2016/17 i 2019/20**

| | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 |
|---|---|---|---|---|
| | £M | £M | £M | £M |
| **Costau Net Plismona** | 93.342 | 95.378 | 96.455 | 98.275 |
| **Cyllid Canolog a Phraesept Lleol** | -93.342 | -94.218 | -95.127 | -96.072 |
| **Cyfanswm y bwlch arbedion (cronnus)** | 0 | 1.160 | 1.328 | 2.203 |

## 3. Casgliad a Gwaith Pellach sydd ei Angen

3.1 Er gwaethaf yr ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol, mae'n ddoeth datblygu cynlluniau i ddiwallu gostyngiad mewn cyllid yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn ar y gweill.

3.2 Mae'r CHTh a'r PG yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar gydweithio gyda heddluoedd eraill a bydd y PG yn dechrau gwneud rhai newidiadau sylweddol i fodel gweithredu yr heddlu a chymarebau goruchwylio yn 2016/17.

3.3 Bydd trafodaethau pellach am y dyfodol yn cael eu cynnal yn ystod 2016/17 er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn parhau i wella ei effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau plismona effeithiol i'r cyhoedd.

## Tabl 14: Model Ariannol Lefel Uchel 2016/17 i 2019/20

| | Gwaelodlin | Rhagdybiaethau | | | | Rhagamcan o'r Cyllid a Fydd Ar gael | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Grantiau Canolog** | | DRAFFT | AMC | AMC | AMC | | | | |
| Dyrannu Setliad Craidd yr Heddlu | -28,268 | -0.6% | -0.6% | -0.6% | -0.6% | -28,107 | -27,938 | -27,771 | -27,604 |
| Dyraniad o dan Reol Ychwanegol 1 | -3,167 | 24.6% | -0.6% | -0.6% | -0.6% | -3,945 | -3,921 | -3,898 | -3,874 |
| Cyllid Gwaelodol | -6,076 | -16.6% | -0.6% | -0.6% | -0.6% | -5,065 | -5,035 | -5,004 | -4,974 |
| Grant Cynnal Refeniw | -1,426 | 223.8% | -0.6% | -0.6% | -0.6% | -4,618 | -4,590 | -4,563 | -4,535 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | | -11,362 | -27.2% | -0.6% | -0.6% | -0.6% | | -8,277 | -8,227 |
| | **-50,299** | | | | | **-** | **-49,712** | **-49,414** | **-49,117** |
| | -5.1% | | | | | -0.6% | -0.6% | -0.6% | -0.6% |
| Praesept y Dreth Gyngor | | | | | | | | | |
| Sylfaen | 215,090 | 0.69 | 0.70% | 0.70% | 0.70% | 216 | 218,090 | 219,616 | 221,154 |
| Cyfradd ar Fand D | 200.07 | 0.00 | 2.00% | 2.00% | 2.00% | 200.07 | 204.07 | 208.15 | |
| **Rhagamcan o'r Praesept** | **-43,033** | | | | | **-43,330** | **-44,506** | **-45,714** | **-** |
| **Rhagamcan o Gyfanswm y Cyllid** | **-93,332** | *Cyfanswm Cyllid Allanol Ar gael i Swyddfa'r Comisiynydd / Heddlu* | | | | **-93,342** | **-94,218** | **-95,127** | **-96,072** |
| | | | | | | 0.0% | 0.9% | 1.0% | 1.0% |
| *% a Ariennir gan y Dreth Gyngor* | 46% | | | | | 46% | 47% | 48% | 49% |

| | Sylfaen drethu ar Fand D | | | Casgliad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylfaen drethu** | **2015/16** | **2016/17** | **Newid** | **2015/16** | **2016/17** | **Newid** |
| Sir Gaerfyrddin | 70,376 | 70,929 | 0.79% | 97.50% | 97.50% | 0.0% |
| Ceredigion | 30,468 | 30,661 | 0.63% | 96.50% | 96.50% | 0.0% |
| Sir Benfro | 53,358 | 53,798 | 0.83% | 97.75% | 97.75% | 0.0% |
| Powys | 60,889 | 61,186 | 0.49% | 97.50% | 97.50% | 0.0% |
| | **215,090** | **216,574** | **0.69%** | | | |

## Tabl 15: Cyfrif Refeniw ar gyfer 2015/16 i 2019/20

| | Cyllideb 2015/16 | Cyllideb 2016/17 | Cyllideb Ddangosol 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyllideb ar gyfer SCHTh a Chomisiynu** | | | | | |
| Costau Staff | 632 | 642 | 648 | 655 | 661 |
| Treuliau Rhedeg SCHTh | 337 | 337 | 344 | 351 | 358 |
| Cyllideb Gomisiynu | 1,000 | 978 | 998 | 1,018 | 1,038 |
| **Cyfanswm Costau Swyddfa'r Comisiynydd** | **1,969** | **1,957** | **1,990** | **2,023** | **2,057** |
| **Cyllideb ar gyfer y Prif Gwnstabl a'r Staff o dan Gyfarwyddyd a Rheolaeth y Prif Gwnstabl** | | | | | |
| **Cyflogeion** | | | | | |
| Swyddogion yr Heddlu | 51,497 | 51,751 | 52,398 | 52,942 | 53,472 |
| Staff yr Heddlu | 18,270 | 19,649 | 19,721 | 19,168 | 19,360 |
| Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu | 4,713 | 4,831 | 4,894 | 4,943 | 4,993 |
| Pensiynau'r Heddlu (net) | 11,684 | 11,887 | 12,006 | 12,126 | 12,247 |
| Costau Staff Anuniongyrchol | 717 | 761 | 776 | 792 | 807 |
| **Cyfanswm Costau Cyflogeion** | **86,882** | **88,879** | **89,796** | **89,971** | **90,879** |
| **Treuliau Rhedeg** | | | | | |
| Costau Adeiladau | 3,401 | 3,389 | 3,456 | 3,526 | 3,596 |
| Costau Trafnidiaeth | 2,771 | 2,225 | 2,269 | 2,315 | 2,361 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 8,602 | 9,019 | 8,949 | 8,878 | 9,056 |
| Gwasanaethau Asiantaethau a Gwasanaethau ar Gontract | 2,385 | 1,908 | 1,946 | 1,985 | 2,025 |
| **Cyfanswm y Treuliau Rhedeg** | **17,158** | **16,540** | **16,621** | **16,704** | **17,038** |
| Costau Cyllid Cyfalaf | 1,069 | 467 | 476 | 486 | 495 |
| **Cyfanswm y Gwariant** | **105,108** | **105,887** | **106,893** | **107,161** | **108,412** |
| **Wedi'i ariannu gan:** | | | | | |
| **Incwm** | | | | | |
| Grant Penodol | -6,844 | -7,266 | -7,266 | -7,266 | -7,266 |
| Incwm Arall | -3,926 | -4,184 | -4,267 | -4,353 | -4,440 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **-10,770** | **-11,450** | **-11,533** | **-11,619** | **-11,706** |
| **Cyfraniad o'r Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | | |
| Y Defnydd o Gronfeydd Wrth Gefn | -2,976 | -3,391 | -1,972 | -1,110 | -488 |
| | **-2,976** | **-3,391** | **-1,972** | **-1,110** | **-488** |
| **Costau Net - Heddlu** | **91,363** | **91,046** | **93,388** | **94,432** | **96,219** |
| Defnydd o / Cyfraniad at Gronfeydd Wrth Gefn | 0 | 339 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Costau ar gyfer SCHTh a'r Heddlu** | **93,332** | **93,342** | **95,378** | **96,455** | **98,275** |
| **Cost Net Plismona i'w Hariannu o Grantiau a Phraeseptau** | **93,332** | **93,342** | **95,378** | **96,455** | **98,275** |
| **Grantiau a Phraeseptau** | | | | | |
| Grant yr Heddlu | -37,511 | -37,117 | -36,894 | -36,673 | -36,453 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | -11,362 | -8,277 | -8,227 | -8,178 | -8,129 |
| Grant Cynnal Refeniw | -1,426 | -4,618 | -4,590 | -4,563 | -4,536 |
| **Cyfanswm Cymorth Allanol** | **-50,299** | **-50,012** | **-49,712** | **-49,414** | **-49,117** |
| Praeseptau ar Awdurdodau Bilio | -43,033 | -43,330 | -44,506 | -45,714 | -46,954 |
| **CY ANSWM YR ADNODDAU** | **-93,332** | **-93,342** | **-94,218** | **-95,127** | **-96,072** |
| Gwahaniaeth (Arbedion Anhysbys @ -5%) | -0 | -0 | 1,159 | 1,328 | 2,204 |
| **Sylfaen drethu** | 215,091 | 216,574 | 218,090 | 219,617 | 221,154 |
| **LEFEL Y DRETH Y CYNGOR** | £ 200.07 | £ 200.07 | £ 204.07 | £ 208.15 | £ 212.32 |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor | | 0.0% | 2.0% | 2.0% | 2.0% |